

Cyngor Cymuned Llanystumdwy

Cofnodion cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar nos Iau, Gorffennaf 5ed, 2015 yn Ystafell Myrddin, Neuadd Goffa Chwilog.

Yn bresennol: Y Cyngorwyr Ifor W Davies, (Cadeirydd); Marian Evans, (Is gadeirydd); Dafydd Williams; Aled Lloyd Evans; Anwen Jones; Elis Gwyn Jones; John Williams; Gwilym M Thomas; Alwen Evans a'r Clerc.

1. Ymddiheuriadau. Y Cyngorwyr Margaret Griffith; Naomi Jones; Thomas Prys Jones; Trefor W Jones; Brian W Ifans ac William Ifor Hughes.
2. Cyflwynwyd a chadarnhawyd cofnodion cyfarfod y Cyngor gynhaliwyd ar Fehefin 11eg, 2015. Gofynnwyd i rif 8 yn y cofnodion sef ceisiadau am arian a hysbysebu ar y we gael ei roi ar raglen cyfarfod mis Medi. Yn yr un modd, rhif 12, angen cael dyddiad ar gyfer cyfarfod y Pwyllgor Sefydlu Busnes.
3. Materion yn codi o'r cofnodion. Ar y rhaglen.
4. Datgan buddiant personol. Neb yn datgan buddiant personol.
5. Cyngor Gwynedd.

1. Priffyrdd a Bwrdeistrefol; Gwasanaeth Cynnal Priffyrdd a Bwrdeistrefol; Materion y Gymuned. Derbyniwyd na fydd posib cyflawni gwaith ail wynebu at Groeslon Dilwyn yn y flwyddyn ariannol gyfredol ac y bydd gwaith rhaglenedig torri gwair ffyrdd gwledig Ardal Dwyfor yn dechrau ar Fehefin 29ain, 2015.

2. Priffyrdd a Bwrdeistrefol; Gwasanaeth Cynnal Priffyrdd a Bwrdeistrefol; Arwyddion y Ffyrdd. Derbyniwyd yr ateb y bydd y Cyngor Sir yn edrych i mewn i'r mater gynted a bo modd.

3. Oedolion, Iechyd a Llesiant; Ail Strwythuro'r Gwasanaeth Cofrestru yn Nwyfor a Meirionnydd. Derbyniwyd er gwybodaeth y bydd newid yn y gwasanaeth.

4. Gwynedd-Ni; Gwasanaeth Gwybodaeth i Blant, Pobl Ifanc a Theuluoedd Gwynedd, rhan o ofynion Deddf Gofal Plant 2006 (Adran 12) – Gwybodaeth i Deuluoedd. Penderfynwyd derbyn er gwybodaeth.

5. Gweithdy Ymgynghorol ar Ddyfodol Gwasanaeth Llyfrgell a Gwybodaeth Gwynedd. Doedd neb yn gallu mynd i'r cyfarfod ym Mhorthmadog am 6 yr hwyr nos Fercher Gorffennaf 15fed. Tynnwyd sylw at ymgynghoriad Gwanwyn 2015 Gwasanaeth Llyfrgell Gwynedd a dosbarthwyd copiau o'r daflen crynhoi'r strategaeth a'r holiadur. Roedd cyfle i'r Cyngor yma nodi eu barn erbyn Gorffennaf 17eg, 2015.

6. Partneriaeth Economaidd Gwynedd. Derbyniwyd er gwybodaeth.

7. Adran Rheoleiddio, Gwasanaeth Cynllunio, Swyddog Gorfodaeth Cynllunio; Coedwig Ynys Creua, Llangybi. Penderfynwyd derbyn y llythyr a chadw golwg ar y sefyllfa.

6. Cyngor Gwynedd – Ceisiadau Cynllunio yn y Gymuned:

a. Cais rhif C15/0585/41/LL – Lleoli 5 carafan statig ychwanegol, gosod system trin carthion newydd a tirweddu; Tyddyn Morthwyl, Rhoslan. Penderfynwyd cefnogi ond anfon llythyr yn holi am eglurhad ynghylch y rheol 10%. Ydi'r 10% ychwanegol sydd yn cael ei ganiatau yn ganran unwaith ac am byth ynteu dros gyfnod o amser?

b. Cais rhif C15/0582/41/LL – Codi estyniad ochr deulawr; Pensarn, Rhydybenllig. Cefnogwyd.

- c. Cais rhif C15/0624/41/LL – Newid defnydd anecs presennol i fod yn uned gwyliau hunan gynhaliol; Pig yr Erw, Criccieth. Cefnogwyd.
 - ch. Cais rhif C15/0581/41/LL – Codi estyniad unllawr cefn; Pensarn, Rhydybenllig. Cefnogwyd.
 - d. Cais rhif C15/0632/41/LL – Codi sied amaethyddol, Hidiart Lydan, Prow Llanystumdwy No 70a, Chwilog. Penderfynwyd cefnogi.
 - dd. Cais rhif C14/0113/41/AM – Cais amlinellol ar gyfer codi 21 o dai (gan gynnwys 7 ty fforddiadwy) gyda'r holl faterion eraill wedi cadw yn eu hol (cynllun diwygiedig); Tir ger Bryn Hyfryd, Chwilog. Cefnogwyd y cais.
 - e. Cais rhif C15/0657/41/LI – Codi estyniad ochr a cefn deulawr a creu mynedfa cerbydol newydd; Tegfryn, Llangybi. Penderfynwyd cefnogi.
7. Un Llais Cymru; Hyfforddiant Gorffennaf. Doedd neb awydd mynd ar yr un o'r cyrsiau.
8. Cartrefi Cymunedol Gwynedd; system bwyntiau gosod tai. Daeth yr ateb mai Tim Opsiynau Tai (TOT) Cyngor Gwynedd sydd yn gweithredu'r system bwyntiau. Penderfynwyd anfon at y Tim Opsiynau Tai, Cyngor Gwynedd i i ofyn am eglurhad ar sut mae'r system bwyntiau yn cael ei gweithredu.
9. Datblygiad solar arfaethedig ar dir yn fferm Bryn Bachau, Chwilog – Digwyddiad Ymgynghori Cyhoeddus, dydd Iau, 2 Gorffennaf 2015, Neuadd Goffa Chwilog, 4-5pm a than 8pm ar gyfer y cyhoedd. Derbyniwyd er gwybodaeth.

10. Materion yn y gymuned.

Chwilog.

- a. Penygroes Llanystumdwy. Cwyn bod trafndiaeth yn mynd heibio'r tai yn lle mynd ar hyd y briffordd. Penderfynwyd gadael pethau fel ag y maent.
- b. Llwybr Afonwen. Mae'r canclwm Siapaneaidd yn cau ceg y llwybr eto eleni ac yn ogystal mae dŵr yn rhedeg o'r hen waith Dŵr Cymru. Esboniodd y Clerc ei fod eisoes wedi cysylltu gyda Dŵr Cymru ac Uwch Swyddog Llwybrau Cyngor Gwynedd ynghylch y ddau beth. Roedd y Cyngor Sir a Dŵr Cymru yn trefnu cyfarfod ar y safle cyn cymeryd camau pellach.
- c. Cwyn bod pen y clawdd ger tai Groesffordd, Chwilog heb gael ei dorri. Penderfynwyd anfon y gwyn ymlaen i Adran Priffyrdd Cyngor Gwynedd ar sail perygl i welediad.

Llanarmon

Coed yn tyfu drosodd i'r ffordd rhwng Chwilog a Llanarmon rhwng tro Rynys a'r bont. Penderfynwyd anfon y gwyn ymlaen i Adran Priffyrdd Cyngor Gwynedd.

Llanystumdwy/Rhoslan

- a. Coeden beryglus yn Rhydybenllig; mae'n amharu ar welediad trafndiaeth ar y bont. Penderfynwyd anfon y gwyn ymlaen i Adran Priffyrdd Cyngor Gwynedd.
- b. Cwyn am yr arwydd ar groeslon Tyddyn Sianel. Penderfynwyd gofyn am i'r arwydd Ildiwch/Give Way gael ei baentio neu ei adnewyddu.
- c. Gwelediad dros y bont ym mhentref Llanystumdwy oherwydd coed yn gor dyfu; hyn yn amharu ar welediad i drafnidiaeth. Penderfynwyd anfon y gwyn ymlaen i Adran Priffyrdd Cyngor Gwynedd.

11. Caniatad i'r Clerc dalu biliau yn ystod misoedd Gorffennaf ac Awst ar ôl ymgynghori gyda'r Cadeirydd/Is gadeirydd. Rhoddwyd caniatad.

Yn disgwyl am anfoneb gan Mr Meilir Huws, gwaith ar y coed ger bedd Lloyd George.

12. Caniatad i roi sylwadau ar geisiadau cynllunio ddaw yn ystod misoedd Gorffennaf ac Awst ar ôl ymgynghori gyda'r Cadeirydd/Is gadeirydd. Rhoddwyd caniatad.

Y Cyngor yn gaeedig i'r Cyhoedd ac i'r Wasg.

It is possible to get a translation of any minute; contact the Clerk.

.

.